CC(3) AC 32

**Communities and Culture Committee**

**Inquiry into the Accessibility of Arts and Cultural Activities in Wales**

Response from Theatr Bara Caws

23 Medi, 2010

Ms Sandy Mewies,
Cadeirydd,
Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant,
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1NA.

Annwyl Ms. Mewies,

**Cyf: 'Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant: ymchwiliad i 'hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru.'**

Mewn ymateb i'ch cais dyddiedig Gorffennaf 2010 am dystiolaeth i'ch ymchwiliad 'Hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru', hoffem gynnig ychydig o sylwadau yn seiliedig ar ein profiad fel cwmni theatr broffesiynol sydd yn gweithio'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cwmni Theatr Bara Caws bellach yw'r unig gwmni theatr gymunedol proffesiynol sy'n gweithio drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae'r cwmni yn elusen gofrestredig sy'n cael ei ariannu'n llwyr gan grantiau, yn bennaf gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac awdurdodau Sirol a chynghorau Gwynedd, Môn, Arfon a Chonwy. Goruchwylir y cwmni gan fwrdd o gyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am sicrhau tryloywder gweinyddiad, cywirdeb ariannol, arfer da, a llunio a chymeradwyo polisïau gweithredol. Mae pedwar aelod staff parhaol ac un rhan amser. Gweinyddir pob agwedd o waith y cwmni gan ddau aelod o'r staff parhaol, tra bo'r gwaith technegol yn cael ei ddosrannu rhwng y ddau aelod parhaol arall. Cyflawnir dyletswyddau'r Cydlynydd Artistig gan yr aelod rhan amser. Lleolir y cwmni mewn uned ar Stad Ddiwydiannol Cibyn. Mae'r uned yn cynnwys ystafell ymarfer, gweithdy a swyddfa.

Prif *raison d'être* y cwmni ers ei sefydlu yn 1977 yw denu cynulleidfaoedd i ddigwyddiadau theatrig yn y Gymraeg o fewn eu cymunedau, neu'n agos atynt. Mae'n broses gyson o ddenu drwy gyflwyno'r cyfarwydd a'r poblogaidd, ac o agor llygaid drwy ymestyn

gorwelion a disgwyliadau'r gynulleidfa. Mae'r cwmni yn ceisio gwireddu hyn drwy gyflwyno cynyrchiadau mewn tri categori llac:

a) y cyfarwydd a'r poblogaidd y tu allan i'r theatr draddodiadol – y sioe glybiau, y sioe bysys, ayyb
b) y cyfarwydd a'r poblogaidd o fewn y theatr draddodiadol – Llyfr Mawr y Plant, sioeau Valmai Jones, Wil Sam ayyb, ac addasiadau o waith John Godber ac Alan Bennett, ayyb
c) Y theatrig heriol ac arloesol – Lysh, Be oedd enw Ci Tin Tin, Laramie, Aderyn Du, Merched Eira, ayyb

Fel Hansel a Gretel yn cael eu denu'n ddyfnach i'r coed, profwyd i ni eisoes fod elfen gref o'r gynulleidfa sy'n dod i weld sioe glybiau yn awyrgylch saff a chyfarwydd eu clwb neu dafarn leol, yn fodlon wedyn ymweld â un o'n sioeau ysgafn, ac yna'n fwy parod efallai hefyd i brofi gwaith mwy mentrus y cwmni. Mae'n rhaid i'n cynnyrch adlewyrchu ein cynulleidfa i ryw raddau, ac ymhlyg yn y ddealltwriaeth honno o'r gynulleidfa mae'r ffaith nad yw pob aelod o gynulleidfa sioe glybiau yn bwriadu dod i weld addasiad heriol o ddrama rymus. Wedi dweud hynny mae'n hanfodol i nodi eu bod wedi mynychu digwyddiad theatrig proffesiynol llwyddiannus yn eu hiaith eu hunain, yn eu cymuned eu hunain, a hynny heb fod yn ymwybodol ambell dro eu bod wedi bod yn dyst i ddigwyddiad theatrig yn ei ystyr mwya' cyfyng.

Er hwylustod mi fyddwn yn dilyn y drefn a rhifau'r cwestiynau fel eu gosodwyd yn eich cais gwreiddiol.

*1.A ydych yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei ymrwymiad i sicrhau bod 'profiadau diwylliannol o'r radd flaenaf ar gael i bawb, waeth beth yw eu cefndir neu ymhle y maent yn byw?' Pa mor effeithiol fu ei fuddsoddiad mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol o ran gwireddu'r amcan hwn?*

1. Ni allwn ond ymateb mewn ffordd sy'n adlewyrchu ein profiad ein hunain, ac mae hyn yn wir am ein hatebion i gyd.
   Yn ddelfrydol byddai ein cynyrchiadau yn cael eu gweld ledled Cymru. Mae gofyn amdanynt, ac fe fyddem yn awyddus mewn byd delfrydol i ddiwallu'r gofyn hwnnw. Fodd bynnag cyfyngir ein gallu i deithio gan gostau cynyddol gwestai, tanwydd, ayyb.

*2. Sut yn union mae lleoliadau celfyddydol a diwylliannol – gan gynnwys amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau – yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo mynediad, denu cynulleidfaoedd newydd ac annog pobl i gymryd rhan yn unol ag ymrwymiad Cymru'n Un a strategaethau Cyngor y Celfyddydau?*

2. Nid oes gennym unrhyw brofiad yn y meysydd yma.

*3. A yw'r rhwydwaith presennol o leoliadau celfyddydol a diwylliannol yn ddigonol, ac a oes unrhyw faterion daearyddol neu faterion eraill sy'n parhau i fod yn rhwystrau o ran cymryd rhan (e.e. mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd difreintiedig)?*

3. Bydd Cwmni Bara Caws yn teithio'n rheolaidd i ardaloedd gwledig ac ardaloedd difreintiedig gan berfformio mewn neuaddau pentref, a chanolfannau a chlybiau cymdeithasol. Mae yna werthfawrogiad amlwg ymhlith y cynulleidfaoedd hynny sy'n mynychu'r perfformiadau oherwydd eu bod yn cael cyfle i fwynhau profiad theatrig na fyddai ar gael iddynt fel arall.

   Perodd cau Theatr Gwynedd gryn bryder i'r cwmni, nid yn unig oherwydd ein bod wedi colli canolfan berfformio boblogaidd a hygyrch, ond hefyd am ein bod ar fin colli cynulleidfa driw oedd wedi ei meithrin dros gyfnod hir. Bydd colli Theatr Harlech hefyd yn golygu nad oes canolfan berfformio o safon rhwng Aberystwyth a Llandudno. Hyderwn y bydd y ganolfan arfaethedig newydd ym Mangor yn croesawu cwmnïau teithiol ac yn hwyluso eu perfformiadau.

*4. Beth fydd effaith Adolygiad Buddsoddi Cyngor y Celfyddydau ar y rhwydwaith o leoliadau a gweithgareddau diwylliannol ledled Cymru? A ydych yn ystyried y bydd penderfyniad Cyngor y Celfyddydau i roi'r gorau i ariannu 32 o sefydliadau, o ganlyniad i'r Adolygiad Buddsoddi, yn effeithio'n sylweddol ar hygyrchedd lleoliadau neu weithgareddau diwylliannol? A yw canolbwyntio'r arian yn osgoi iddo gael ei ddosbarthu'n rhy denau, a chyflawni ychydig?*

4. Mae cau sawl cwmni theatr ledled Cymru wedi golygu bod talpiau anferth o'r wlad heb wasanaeth theatr. Nid oes tystiolaeth eto fod yr arian a arbedwyd drwy dorri'r cwmnïau hynny wedi ei ail ddosrannu yn y fath fodd fyddai'n golygu fod y cwmnïau 'llwyddiannus' yn gallu diwallu'r gofyn yn yr ardaloedd a ddioddefodd y toriadau.

*5. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyllideb Cyngor y Celfyddydau ar gyfer 2011-2012 tan fis Rhagfyr 2010. Pa effaith a gaiff gostyngiad yng nghyllideb Cyngor y Celfyddydau ar hygyrchedd gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol yng Nghymru yn eich barn chi?*

5. Mae cwmni bychan fel Bara Caws wastad wedi gorfod gweithio o fewn cyfyngderau ariannol tynn. Er nad ydym ar hyn o bryd, fwy na Chyngor y Celfyddydau eu hunain, yn gwybod faint yn union fydd y toriadau, does dim dwywaith y bydd unrhyw doriadau yn effeithio ar natur ein gwasanaeth. Pe bai toriad yn ein harian, byddem yn teithio llai ac yn cyflwyno llai o berfformiadau. Heb bresenoldeb cyson y cwmni mewn cymunedau, ofnwn y bydd cynulleidfaoedd yn colli'r arfer o fynychu digwyddiadau diwylliannol, ac yn edwino.

*6. A oes gennych unrhyw bryderon am yr amrywiaeth yn ystod ac ansawdd gwasanaethau a gweithgareddau diwylliannol awdurdodau lleol ledled Cymru? A oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i ariannu a chynorthwyo gweithgareddau diwylliannol yn gyson yn yr hinsawdd economaidd bresennol?*

6. Ar wahân i Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir Gwynedd yw un o'n cyfranwyr mwyaf. Rydym eisoes wedi profi toriadau yn ein grant ganddynt hwy

ers dwy flynedd bellach, ac mae'n anhepgor fod mwy o doriadau ar y ffordd. Yn anffodus y celfyddydau gan amlaf yw'r cyntaf i deimlo min y fwyell. Fel rhai sy'n gweld yr effaith gadarnhaol ar y gymuned o gyd-drefnu a chyd-fwynhau ein cynyrchiadau, ni allwn ond gresynu at yr orfodaeth honno i gwtogi ein cyfraniad.

*7. Awgrymodd Arolwg Omnibus Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2008 fod pobl broffesiynol, cymwysedig neu sy'n ymwneud â gwaith nad yw'n waith llaw yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiad celfyddydol na'r rhai oedd yn weithwyr medrus neu led-fedrus. A yw hyn yn gyson â'ch profiadau chi? A allwch egluro'r amrywiad hwn, a sut y gellir mynd i'r afael ag ef?*

7. Rydym ar hyn o bryd ynghanol gwneud gwaith ymchwil i natur ac ystod, cefndir cymdeithasol, oed a rhyw, ein cynulleidfa. Fodd bynnag mae ein profiad anecdotaidd ar lawr gwlad yn profi fod natur y gynulleidfa yn dibynnu ar natur y cynhyrchiad. Bydd ein sioeau clybiau yn denu cynulleidfaoedd cyson o drawstoriad eang, nid yn unig o ran oed a rhyw, ond hefyd yn bwysicach efallai i ni, o ran dosraniad cefndir cymdeithasol. Does dim dwywaith fod cyflwyno theatr i bobol mewn awyrgylch cyfarwydd yn torri ar y rhith elitaidd a all yn rhy aml fod yn gymaint rhan o fyd y theatr.

*8. Awgrymodd Arolwg Omnibus Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2008 fod oedolion iau yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiad celfyddydol nag oedolion hŷn. A yw hyn yn gyson â'ch profiadau chi? A allwch egluro'r amrywiad hwn, a sut y gellir mynd i'r afael ag ef?*

8. Mae unrhyw un sydd yn teithio'n gyson i'n cymunedau Cymreig, fel Bara Caws, yn ymwybodol nad yw awgrym yr Arolwg Omnibws parthed oed yn gywir. Yn ein profiad ni mae unrhyw ddigwyddiad diwylliannol mewn cymuned fechan yn tueddu i ddenu ystod eang o ran oedran o'r boblogaeth leol. Nid yw'n anghyffredin i weld cynulleidfa sy'n amrywio o blant ysgol gynradd i oedolion yn eu pedwar ugeiniau.

*9. Awgrymodd Arolwg Omnibus Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2008 fod merched yn fwy tebygol o fynd i ddigwyddiad celfyddydol na dynion. A yw hyn yn gyson â'ch profiadau chi? A allwch egluro'r amrywiad hwn, a sut y gellir mynd i'r afael ag ef?*

9. Yn gyson â'r Arolwg Omnibws, yn ein profiad ni, mae mwy o ferched yn mynychu ein cynhyrchiadau nag o ddynion. Mae canlyniadau bras cyntaf ein hymchwil cynulleidfa er enghraifft ar gyfer ein drama ddiweddar **'Merched Eira'** yn dangos cymhareb oddeutu 75%/25% merched i ddynion. Mae ein sioeau clybiau fodd bynnag yn denu cymhareb debycach i 50%/50%. Yn gyffredinol drwy Brydain mae mynychwyr theatr at ei gilydd yn tueddu i ddod o gefndiroedd cymdeithasol/addysgiadol A1-B. Mae'n deg credu fod llai o ddynion yng Ngwynedd yn disgyn i'r categorïau hynny, ac felly fod llai o ddynion, y gellid disgwyl iddynt ddangos diddordeb yn y maes, ar gael i ni fel cynulleidfa yn y canolfannau yng Ngwynedd.

*10. Awgrymodd Arolwg Omnibus Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2008 fod*

*Siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o gymryd rhan uniongyrchol yn y celfyddydau na'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. A yw hyn yn gyson â'ch profiadau chi? A allwch egluro'r amrywiad hwn, a sut y gellir mynd i'r afael ag ef?*

10. Fel cwmni cymunedol sy'n gweithio'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, nid oes gennym brofiad o natur y gynulleidfa Seisnig. Rydym yn falch iawn o gael dweud fod nifer o ddysgwyr yn mynychu ein perfformiadau ac yn gwerthfawrogi ein cyflwyniadau fel modd arall o fwynhau a datblygu eu sgiliau iaith - bydd ein hymchwil hefyd yn nodi'r niferoedd o ddysgwyr yn ein cynulleidfaoedd.

*11. A ydych yn ymwybodol o unrhyw amrywiadau arwyddocaol eraill ym mhresenoldeb a chyfranogiad y cyhoedd mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol (er enghraifft, yn seiliedig ar gefndir ethnig, anableddau, lleoliad mewn ardal drefol neu wledig)?*

11. Yn yr Eisteddfod eleni fel pob blwyddyn arall daeth sawl unigolyn atom yn holi pam nad oeddem yn teithio yn amlach i Dde Cymru. Mae'n amlwg fod gofyn am gynyrchiadau Bara Caws, yn arbennig y sioe glybiau, y tu hwnt i'n dalgylch arferol, na allwn ei ddiwallu oherwydd cyfyngiadau ariannol. Rydym hefyd ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth am y nifer o bobl ag anabledd sy'n mynychu ein perfformiadau serch nad oes tystiolaeth anecdotaidd fod diffyg darpariaeth arbenigol mewn neuaddau a lleoliadau eraill wedi golygu fod unigolion gydag anabledd yn peidio, neu'n ei ffeindio'n anodd, i fynychu ein perfformiadau. Mae taflenni Theatr Bara Caws i gyd yn cynnwys y gosodiad:
"Fel theatr gymuned, mae Bara Caws yn awyddus i holl weithgareddau'r cwmni gael eu mwynhau gan bawb gan gynnwys pobl ag anabledd. Os am fanylion ynglŷn â'r cyfleusterau sydd ar gael yn y canolfannau perfformio cysylltwch â Linda Brown (a manylion cyswllt Theatr Bara Caws)."

*12. A hoffech wneud unrhyw sylwadau pellach ar hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru?*

12. Cafodd cau Theatr Gwynedd effaith andwyol ar ddarpariaeth theatr yn y Gogledd Orllewin. Mae'n annerbyniol disgwyl i drigolion Pen Llŷn, er enghraifft, deithio dwy awr pob ffordd yn y car i Theatr Clwyd i weld cynhyrchiad mewn adeilad cymwys. Mae'n hanfodol mewn sefyllfa o'r fath, lle bo gwir beryg i gynulleidfaoedd edwino, fod cwmnïau megis Bara Caws yn derbyn cefnogaeth sy'n gyfatebol i'w cyfraniad i oroesiad y theatr yn y Gymraeg.

Hoffem ddiolch am y cyfle i fynegi ein barn a hyderwn na fydd ein sylwadau yn disgyn ar dir caregog.

Yn gywir iawn,

Linda Brown
ar ran Bara Caws